# Cofnodion Cyfarfod Blynyddol

# Cyngor Cymuned Llangywer

## 13/5/2024

**Presennol:** D Clwyd Davies (Cadeirydd), Gwyn Roberts (is-Gadeirydd), Emyr Jones, Geraint Roberts, W D Williams

Cynghorydd Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd)

Lis Puw (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Eleri Jones, Tyly Roberts

1. Ystyriwyd yr Adroddiad Flynyddol a chytunwyd i gynnwys
   Ymdrechu i wella diogelwch trwy
   - Pwyso am arwydd DIM BYSUS NA CHERBYDAU TRYMION wrth bont Mwnwgl y Llyn ac ar groesffordd Cynllwyd
   - Pwyso am arwydd a marciau ffordd ARAF wrth y Neuadd ac ochr Llanuwchllyn o'r maes parcio, gan fod plant yn awr yn defnyddio'r Neuadd yn rheolaidd
   - Cynnal cyfarfod gyda Parc Cenedlaethol Eryri ar defnydd cyfrifol o'r blaendraeth
   - Mynnu bod Cyngor Gwynedd yn dynodi'r ffordd yn Glirffordd mor fuan a phosib.

2. Derbyniwyd Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2023 fel rhai cywir.

3. Etholwyd Clwyd Davies yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2024-25.

4. Etholwyd Gwyn Roberts yn Is-Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2024-25.

5. Enwebwyd Clwyd Davies yn gynrychiolydd i gyfarfodydd ardal Un Llais Cymru.

6. Enwebwyd Tyly Roberts a WD Williams yn gynrychiolwyr ar Bartneriaeth Penllyn.

7. Adolygwyd a chadarnhawyd Polisïau'r Cyngor yn cynnwys Rheolau Sefydlog a Rheolau Ariannol

8. Adolygwyd rhestr o eiddo'r Cyngor

9. Ariannol: Derbyniwyd Adroddiad yr Archwilydd Mewnol. Atebwyd y cwestiynau a chymeradwywyd y Ffurflen Datganiad Blynyddol 2023-24 i'r Archwilydd Allanol.

| | |
|---|---|
| Balans yn y llyfr arian ar 1/4/23 | £3,956.00 |
| praesept | £4,500.00 |
| incwm arall (TAW a rhoddion) | £291.00 |
| | |
| is gyfanswm | £8,747.00 |
| | |
| llai costau staff | £800.00 |
| llai taliadau eraill | £4,273.00 |
| | |
| is-gyfanswm | £5,073.00 |
| | |
| Balans ar 31/3/24 | **£3,674.00** |

10. Eglurwyd yr Opsiynau ar gyfer Lwfansau Cynghorwyr

11. Penodwyd dyddiadau cyfarfod ar gyfer 2024-25

**Dyddiadau Cyfarfodydd:**

12/5/24 Cyfarfod Blynyddol 2024
8/7/24
9/9/24
11/11/24
13/1/25
10/3/25
14/5/25 Cyfarfod Blynyddol 2025